# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN DDYDD MERCHER, 13 TACHWEDD 2019 AM 10.30 A.M.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd B. Jones - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant), N. George (Gwasanaethau Cymdogaethau), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad). S. Morgan (Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn Bresennol:

S. Ellis (Arweinydd ar gyfer Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid – Addysg, Dysgu Gydol Oes ac Ysgolion), M. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Busnes Dros Dro a Swyddog Adran 151 Dros Dro), L. Goodwin (Rheolwr Prosiect – Prosiectau Ewropeaidd), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM FOD YN ABSENNOL

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am fod yn absennol.

### 2. DATGANIADAU BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd N. George a'r Cynghorydd B. Jones fuddiant personol, a datganodd y Cynghorydd L. Phipps fuddiant personol a rhagfarnus yn Eitem Rhif 4 yr Agenda – Adolygiad Cyllid y Ganolfan Adnoddau Arbenigol. Datganodd y Cynghorydd C. Cuss a'r Cynghorydd L. Phipps fuddiant personol a rhagfarnus o ran Eitem Rhif 6 ar yr Agenda – Trefniadau Cyllid Fformiwla ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Dau Safle), y ceir manylion amdanynt ac sydd wedi eu cofnodi gyda'r eitem briodol.

## 3. CABINET – 30 HYDREF 2019

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2019 wedi eu cymeradwyo yn gofnod cywir.

## MATERION YR OEDD ANGEN GWNEUD PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL AMDANYNT

## 4. ADOLYGIAD CYLLID Y GANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL

Datganodd y Cynghorydd N. George fuddiant personol fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Ty Sign ac Ysgol Gyfun Rhisga a datganodd y Cynghorydd B. Jones fuddiant personol fel Llywodraethwr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Sant James ac Ysgol Sant Cenydd.

Datganodd y Cynghorydd L. Phipps fuddiant personol a rhagfarnus gan fod ei chwaer yn gweithio yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac mae ei nithod hefyd yn fyfyrwyr yn yr ysgol honno. Gadawodd y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem.

Ystyriwyd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Addysg ar 2 Gorffennaf 2019. Nodwyd bod anghenion mwyafrif y disgyblion wedi cael eu diwallu mewn addysg prif ffrwd. Fodd bynnag, mae ystod o ddarpariaeth ar gyfer plant â gwahanol anghenion cymhleth ar draws yr awdurdod lleol. Byddai'r model staffio a'r adnoddau a amlinellir yn yr adroddiad yn golygu y gellir diwallu anghenion cynyddol gymhleth plant mewn canolfannau adnoddau arbenigol. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Addysg fod y Pwyllgor Craffu Addysg wedi cefnogi'r cynigion yn unfrydol.

Dywedwyd wrth y Cabinet bod dadansoddiad trylwyr o'r anghenion hynny wedi cael ei gynnal er mwyn nodi model a fyddai'n sicrhau tegwch ar draws y darpariaethau neu ar gyfer darpariaethau dynodiadau tebyg, a chyfeiriwyd Aelodau at adran 5.16 yr adroddiad craffu a oedd yn rhoi manylion am y ddarpariaeth arfaethedig mewn sectorau cynradd ac uwchradd, a chadarnhawyd y raddfa amser ar gyfer gweithredu. Nodwyd y byddai darpariaeth yn cael ei hadolygu ar raglen dreigl 3 blynedd er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn parhau i ddiwallu anghenion plant.

Canmolodd Aelodau Cabinet yr ysgolion sy'n darparu Canolfannau Adnoddau Arbenigol, a chofnododd eu diolch am wneud y math hwn o ddarpariaeth yn bosibl.

Ceisiwyd eglurhad o ran cynigion Band B Ysgolion yn yr 21ain Ganrif a darpariaeth Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn y dyfodol. Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi cydnabod yr angen am gynllunio ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gan fod anghenion plant yn mynd yn fwyfwy cymhleth. Roedd trafodaethau wedi cael eu cynnal hefyd ynglŷn â sut gellid cysylltu hyn â chynigion Band B.

Ar ôl ystyried a thrafod, fe'i symudwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad y Swyddog, a thrwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Swyddog, y dylid cytuno ar y model staffio, yr adnoddau a'r amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu Canolfan Adnoddau Arbenigol y Cyngor.

## 5. YMGYRCH CRONFA GYMDEITHASOL EWROP, YSBRYDOLI I GYFLAWNI (I2A)

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno Ysbrydoli i Gyflawni (I2A) fel rhan o ymgyrch ranbarthol dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Dywedwyd wrth y Cabinet mai ymgyrch yw Ysbrydoli i Gyflawni i gefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sydd mewn perygl o fod yn bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (NACH) ar draws y 5 awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd). Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy ddull ar y cyd yn nodi ac yn mynd i'r afael ag angen y rheiny sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio, a'u paratoi â'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio ag unrhyw rwystrau rhag dysgu, a'u gwaredu.

Nodwyd y byddai Caerffili yn anelu at gefnogi 550 o gyfranogwyr dros ddwy flynedd trwy eu cefnogi'n unigol neu mewn grwpiau bach i ddatblygu eu sgiliau dysgu, cymhellol ac ymgysylltu er mwyn lleihau'r risg y byddant yn bobl ifanc NACH. Bydd sesiynau hyfforddi teilwredig yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion ac arddulliau dysgu unigol y dysgwr, a phan oedd angen, byddai cyfranogwyr yn cyfeirio at asiantaethau partner neu wasanaethau wedi eu caffael.

Ceisiwyd eglurhad ynglŷn â pha gymorth fyddai'n cael ei ddarparu i wardiau mwyaf difreintiedig yr etholaeth yn y fwrdeistref, lle roedd y risg uchaf o ran pobl ifanc NACH, yn ystadegol.

Cadarnhaodd y Swyddog y byddent yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion, Gyrfa Cymru ac roeddent yn edrych ar ddulliau arloesol yn ogystal â darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff a byddai ardaloedd mwyaf difreintiedig y fwrdeistref yn cael eu targedu fel rhan o'r gwaith.

Amlygwyd y byddai'r prosiect hwn yn defnyddio £1.2 miliwn o gyllid grant heb unrhyw gostau pellach i'r awdurdod lleol, a nodwyd bod hyn yn enghraifft nodweddiadol o agwedd calon gymdeithasol / pen masnachol model gweithredol Tîm Caerffili.

Wedyn, ceisiwyd eglurhad ynglŷn â sut byddai llwyddiant Ysbrydoli i Gyflawni yn cael ei fonitro a nodwyd bod unrhyw raglen a ariennir gan gyllid Ewropeaidd yn destun monitro eang gan WEFO a byddai monitro gan yr awdurdod lleol o safbwynt addysg heblaw yn yr ysgol yn cyd-fynd â hyn.

Cydnabu'r Cabinet natur gadarnhaol y rhaglen, a'r gwahaniaeth y byddai'n ei wneud i ddysgu a datblygiad y cyfranogwyr.

Ar ôl ystyried a thrafod, fe'i symudwyd, ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad y Swyddog, a thrwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Swyddog, y dylid cymeradwyo cyfranogiad yr Awdurdod yn y prosiect Ysbrydoli i Gyflawni, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

## 6. TREFNIADAU CYLLID FFORMIWLA AR GYFER YSGOL GYFUN CWM RHYMNI (DAU SAFLE)

Datganodd y Cynghorydd L. Phipps fuddiant personol a rhagfarnus gan fod ei chwaer yn gweithio yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac mae ei nithod hefyd yn fyfyrwyr yn yr ysgol honno. Datganodd y Cynghorydd C. Cuss fuddiant personol a rhagfarnus gan fod ei gefndryd yn mynychu safle'r Gwyndy. Gadawodd y naill a'r llall ohonynt y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem.

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet am newidiadau i'r trefniadau cyllid fformiwla ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni fel ysgol â dau safle. Nodwyd bod yr ysgol wedi cael ei hariannu hyd yma fel un ysgol ag un cyfandaliad ychwanegol ar gyfer dau safle. Mae'r dyraniad cyllid fformiwla dau safle yn cydnabod y baich ariannol ychwanegol sy'n codi i ysgol o ganlyniad uniongyrchol i gynnig darpariaeth ar draws 2 safle.

Ar ôl ystyried a thrafod, fe'i symudwyd, ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, a thrwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

(i) y dylid diweddaru'r trefniadau rhannu cyllid ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar ôl ystyried y materion a gyflwynir yng nghorff yr adroddiad (Mae hyn gyfwerth â thua £114,000 o gyllid ychwanegol i'r ysgol);

(ii) y dylid cytuno ar gyllid ôl-weithredol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 i 2019/20 (Mae hyn gyfwerth â thua £228,000 am y 2 flwyddyn ariannol);

(iii) y dylid cynnwys pwysau ariannol yn gysylltiedig â'r cynnig hwn fel eitem "twf" o fewn cynigion strategaeth cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 (Mae hyn gyfwerth â £114,000 yn 2019-20).

## 7. CAFFAEL SAFLE CLWB GOLFF PARC VIRGINIA

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gaffael hen safle Clwb Golff Parc Virginia yng Nghaerffili at ddiben darparu addysg a hyfforddiant dibreswyl, yn amodol ar newid y cais cynllunio yn llwyddiannus o D2 y Cynulliad a Hamdden i D1 Sefydliadau dibreswyl.

Dywedwyd wrth y Cabinet bod gan y safle'r potensial i ddarparu sylfaen addas ar gyfer gweithgareddau addysg statudol, gan gynnwys gwaith ieuenctid, o fewn Basn Caerffili, yn ogystal â darparu llwyfan ar gyfer darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant i bobl ifanc sy'n agored i niwed nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol. Nodwyd, er mwyn i'r Awdurdod Lleol fod yn berchen ar y safle, y byddai angen i'r Cyngor godi cyfamod ar y tir, a thrwy wneud hynny, byddai'n ymwrthod â derbyn cyfalaf posibl yn y dyfodol, gwerth tua £300,000 yn y tymor byr.

Nodwyd y byddai'r caffael hwn yn galluogi i wasanaethau gael eu symud allan o safleoedd llai addas, a darparu amgylchedd addysgol gwell ac addas at ei ddiben ar gyfer dysgwyr sydd ychydig yn orbryderus. Nodwyd y byddai'r safle hwn yn ddelfrydol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu gwasanaethu gan yr HIVE ar hyn o bryd.

Gofynnwyd am eglurhad o ran y graddfeydd amser yn y broses gaffael, a chadarnhaodd Swyddogion y byddai hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar ddiwydrwydd dyladwy. Dywedodd fod y perchnogion presennol yn awyddus i fwrw ymlaen.

Ar ôl ystyried a thrafod, fe'i symudwyd, ac eiliwyd, yn amodol ar ddiwygio argymhelliad (ii) i gynnwys 'trwy ymgynghori â'r Aelod Cabinet perthnasol', y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog, a thrwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

(i) y dylid cytuno i gaffael hen safle Clwb Golff Parc Virginia mewn egwyddor, a'i ddefnyddio fel canolfan ar gyfer gwaith ieuenctid, addysg a hyfforddiant, yn amodol ar roi caniatâd cynllunio i newid defnydd y safle i D1 Sefydliadau Di-breswyl;

(ii) y dylid dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Eiddo, *trwy ymgynghori â'r Aelod Cabinet perthnasol*, i drafod cytundeb ar y telerau gorau posibl gyda Withey Properties ar drosglwyddo safle Clwb Golff Parc Virginia i berchnogaeth y Cyngor.

**8. CYNIGION Y GYLLIDEB DDRAFFT AR GYFER 2020/21**

Ystyriwyd yr adroddiad a gyflwynodd fanylion am gynigion y gyllideb ddrafft i'r Cabinet ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 i ganiatáu ar gyfer cyfnod ymgynghori cyn gwneud penderfyniad terfynol ym mis Chwefror 2020.

Nodwyd y byddai manylion am Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Cymru fel arfer yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar ddechrau mis Hydref bob blwyddyn. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfuniad o'r ansicrwydd parhaus yn sgil Brexit, ynghyd â'r oedi o ran cynnal adolygiad gwariant Llywodraeth y DU; bu oedi wrth gyhoeddi Setliad Ariannol Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21.

Ar hyn o bryd, rhagwelwyd y byddai'r Setliad Dros Dro yn cael ei gyhoeddi ar 26 Tachwedd 2019. Fodd bynnag, yr wythnos ddiwethaf, cadarnhaodd LlC na fydd manylion yn cael eu rhyddhau nawr tan 16 Rhagfyr 2019. I sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i ymgynghori ynglŷn â chynigion y gyllideb ddrafft, ceisir cymeradwyaeth y Cabinet cyn y cyhoeddiad. Felly, mae cynigion y gyllideb ddrafft yn defnyddio man cychwyn yn seiliedig ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 21 Chwefror 2019, a ddangosodd bod gofyniad arbedion arfaethedig 2020/21 yn £15.658 miliwn, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd. Adolygwyd y sefyllfa hon ers hynny, ac ar sail y wybodaeth ddiweddaraf a set ddiwygiedig o ragdybiaethau, rhagwelir gofyniad arbedion diweddaraf o £8.485 miliwn, sef gostyngiad o £7.173 miliwn.

Nodwyd y prif resymau dros y gostyngiad sylweddol hwn yn y gofyniad arbedion fel sefyllfa arian gwastad tybiedig o ran y cyllid craidd gan LlC, sef rhagdybiaeth y byddai pwysau costau o ran Pensiynau Athrawon yn cael eu hariannu'n llawn gan LlC a'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 6.95%. Nodwyd bod CBS Caerffili yn y chwartel is ar hyn o bryd o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru o ran lefelau Band D y Dreth Gyngor.

Cyfeiriwyd y Cabinet at yr arbedion arfaethedig y rhoddir manylion amdanynt yn Atodiad 2 adroddiad y Swyddog, a oedd yn gwneud cyfanswm o £8.485 miliwn. Cydnabuwyd nad oedd nodi'r cynigion wedi bod yn dasg hawdd, ond diolch i reoli'r gyllideb yn effeithiol, a dull darbodus, roedd y cyhoedd wedi cael ei warchod rhag toriadau mawr a tharfu sylweddol ar wasanaethau rheng flaen. Nodwyd effaith model gweithredu newydd yr awdurdod, sef "Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd" o ran cyflawni effeithlonrwydd trwy adolygiadau proses, awtomatiaeth ac adolygu strategaeth fuddsoddi'r cyngor.

O ran y rhagolygon ariannol ar gyfer y dyfodol, dangosodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Chwefror 2019 ofyniad arbedion posibl o £44 miliwn ar gyfer y cyfnod pedair blynedd, sef 2020/21 i 2023/24. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd yn parhau ynglŷn â'r sefyllfa gyllid o ran symud ymlaen. Gan fod Llywodraeth y DU yn cwblhau adolygiad gwariant ar gyfer 2020/21 yn unig ar hyn o bryd, nid oes unrhyw arwydd o lefelau cyllid tebygol yn y tymor canolig i'r tymor hir ar hyn o bryd. Felly, diweddarwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar sail gwybodaeth gyfredol a set ddiwygiedig o ragdybiaethau, sy'n

arwain at ofyniad arbedion a ragwelir o £27 miliwn ar gyfer y cyfnod 2021/22 i 2024/25, yn unol â'r manylion yn Atodiad 3 adroddiad y Swyddog.

Cytunodd y Cabinet fod hwn yn gyfnod nas gwelwyd ei debyg o'r blaen a cheisiwyd eglurhad ynglŷn â pha ddulliau arloesol a oedd yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau effeithlonrwydd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai'r Strategaeth Trawsnewid "Tîm Caerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd" yn cael ei defnyddio i wella'r ffordd rydym yn gweithio, gwella perthnasoedd gyda'n cymunedau a'n partneriaid, a datblygu staff balch ac ymddiriedus. Trwy wella a newid ffyrdd o weithio, gellir lleihau toriadau i wasanaethau rheng flaen, a thrwy archwilio cyfleoedd masnachol, gallwn gynhyrchu incwm i fuddsoddi mewn gwasanaethau a'u helpu i aros yn wydn. Byddai defnyddio technoleg ddigidol i ddatgloi potensial ac ailhyfforddi staff hefyd yn darparu cyfleoedd newydd ar gyfer cyfoethogi rolau tra'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y model yn cyflwyno agenda gyffrous ar gyfer y 12 mis nesaf, a chan fod sylfeini cryf bellach ar waith, roedd yn edrych ymlaen at symud ymlaen gyda mwy o gyflymdra ac egni yn y flwyddyn newydd.

Cydnabu Aelodau Cabinet fod cydweithio'n cael effaith gadarnhaol o ran Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol fel ei gilydd.

Trafodwyd y broses ymgynghori a phwysleisiodd y Cabinet ei bod yn bwysig cyrraedd cynifer o bobl ag y bo modd, gan fod yn ystyriol o'r cyfnod cyn yr etholiad, a'r cyfyngiadau a roddir ar ymglymiad Aelodau. Gofynnodd Swyddogion am gyfleu'n glir i'r cyhoedd y byddai'r Cabinet a'r Cynghorwyr yn cymryd rhan pe gallent, ond nad oeddent yn gallu gwneud hynny oherwydd y cyfyngiadau hyn.

Ceisiwyd eglurhad ynglŷn â pha ddulliau ymgynghori fyddai'n cael eu defnyddio, yn enwedig o ran preswylwyr a chymunedau sy'n anos eu cyrraedd. Nodwyd y byddai ymgynghoriadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb, trwy gyfryngau cymdeithasol, holiadur a digwyddiadau sioeau teithiol, felly byddai digonedd o gyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan.

Ar ôl ystyried a thrafod, fe'i symudwyd, ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, a thrwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

(i) y dylid cymeradwyo cynigion cyllideb ddrafft 2020/21, gan gynnwys yr arbedion arfaethedig sy'n gwneud cyfanswm o £8.485 miliwn (yn cynnwys defnydd arfaethedig o £800,000 o gronfeydd wrth gefn gwasanaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol);

(ii) y dylid cefnogi'r cynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor 6.95% ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 i sicrhau bod cyllideb gytbwys (gosodir Band D y Dreth Gyngor ar £1,209.83);

(ii) bydd cynigion y gyllideb ddrafft yn awr yn destun ymgynghoriad cyn cyflwyno cynigion cyllideb terfynol 2020/21 i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Chwefror 2020.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Dywedwyd wrth y Cabinet, o ganlyniad i gyfyngiadau o ran y cyfnod cyn yr etholiad, fod dau adroddiad a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod ar 27 Tachwedd 2019 wedi cael eu gohirio tan ar ôl

yr etholiad, sef – Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy – Campws Tredomen a Systemau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu.

Yn amodol ar yr hyn a ddywedir uchod, nodwyd Blaenraglen Waith y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25am.

Cafodd hyn ei gymeradwyo a'i lofnodi yn gofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019.

______________________

CADEIRYDD